


# Sut i gynnal cyfarfod ymgeiswyr



[Rhifyn Cymru]

**Diweddarwyd Chwefror 2021**

**gan Meg Read and Rodney Coker**

**gyda deunydd ychwanegol gan David Bradwell a Gethin Rhys**

## Cyflwyniad

---

Bwriedir cynnal etholiadau yng Nghymru ddydd Iau 6 Mai 2021.

Bydd pob etholwr yn gallu pleidleisio dros aelod etholaeth ac aelod rhanbarthol o Senedd Cymru.

Bydd pleidleiswyr dros 18 oed hefyd yn gallu pleidleisio dros Gomisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer eu hardal heddlu (mae rhai dinasyddion tramor sy'n byw yng Nghymru yn anghymwys i bleidleisio yn yr etholiad hwnnw).

Bydd rhai pleidleiswyr dros 18 oed hefyd yn gallu pleidleisio mewn is-etholiad lleol ar yr un diwrnod.

Gallwch weld pa etholiadau sy'n digwydd yn eich ardal yn:

<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/elections-and-referendums/etholiadau-ar-ddod>

Yn y cyfnod yn arwain at etholiad, bydd eglwysi a chyrff cymunedol yn aml yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr etholiadol (a elwir weithiau'n hustyngau). Maent yn gwneud hynny fel gwasanaeth cyhoeddus, i gefnogi'r broses ddemocrataidd, i hwyluso trafodaeth gyhoeddus ac fel cyfraniad at les pawb.

Yn y digwyddiadau hyn gall aelodau o'r cyhoedd wrando ar yr ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad a gofyn cwestiynau iddynt. Gall cyfarfodydd a drefnir gan grwpiau eglwysig gynnig cyfle i drafod gan barchu pawb mewn gofod niwtral, sy'n aml yn rhywbeth mae ymgeiswyr yn ogystal â phleidleiswyr yn ei werthfawrogi.

## Cynnwys

---

<b>Cyflwyniad.....</b>	<b>2</b>
<b>Ffurio grŵp cydlynu .....</b>	<b>4</b>
<b>Y rheolau ynghylch cynnal cyfarfod cyhoeddus gydag ymgeiswyr etholiadol .....</b>	<b>5</b>
<b>Pennu dyddiad .....</b>	<b>6</b>
<b>Dewis y math o gyfarfod .....</b>	<b>8</b>
Dewis A – Cyfarfod etholiadol traddodiadol .....	8
Dewis B – Cyfarfod etholiadol ar garlam .....	9
Dewis C – Cyfarfod etholiadol ‘Gwleidyddiaeth y Bobl’ .....	10
Dewis CH – ‘Cyfres o gyfweiliadau’ .....	12
<b>Cynnal y cyfarfod etholiadol ar-lein .....</b>	<b>13</b>
Dewis 1 – Cyfarfod byw, ar-lein yn unig .....	13
Dewis 2 – Ffrydio panel wyneb yn wyneb yn fyw .....	13
Dewis 3 – Rhannu clipiau fideo a gafodd eu recordio’n flaenorol .....	16
<b>Penodi Cadeirydd .....</b>	<b>18</b>
<b>Gwahodd ymgeiswyr .....</b>	<b>19</b>
A oes rhaid i ni wahodd yr holl ymgeiswyr?.....	20
Beth os nad yw ymgeisydd yn ymateb i wahoddiad, yn gwrthod y gwahoddiad, yn boicotio’r cyfarfod neu ddim yn ymddangos yn y digwyddiad? .....	23
<b>Rhoi cyhoeddusrwydd i’r digwyddiad.....</b>	<b>25</b>
<b>Rhestr wirio a chysylltiadau .....</b>	<b>27</b>

## Ffurio grŵp cydlynu

---

Mae'r cyfarfodydd hyn yn gweithio orau pan gânt eu trefnu'n eciwmenaidd, felly'r peth cyntaf i'w wneud yw ffurfio grŵp cynllunio eciwmenaidd lleol. Gallai hynny fod drwy eich grŵp Cytûn neu Eglwysi Ynghyd Lleol, ond os nad yw hynny'n bosibl mae'n well sefydlu grŵp trefnu arbennig sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith gwahanol eglwysi yn hytrach na gweithredu fel eglwys neu enwad unigol. Cysylltwch â chymaint ag y gallwch o eglwysi o fewn eich etholaeth i weld os gallwch weithio ar y cyd. Ystyriwch a ydych hefyd am wahodd aelodau cymunedau crefyddol eraill neu gyrrff dinesig i fod yn rhan o'r broses. Galwch gyfarfod o'r grŵp hwn cyn gynted ag y bo modd.

Gall ffurfio grŵp cydlynu bach o bobl a fydd yn gallu gwneud penderfyniadau a gweithredu ysgafnhau'r baich a sicrhau bod yr holl dasgau y mae angen iddynt ddigwydd yn cael eu cyflawni'n ddidrafferth. Yn 2021 bydd y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr etholiadol ar-lein, ac felly dylech sicrhau bod eich grŵp cydlynu yn cynnwys pobl sy'n hyderus yn trefnu ac yn cynnal digwyddiadau ar-lein.

Efallai y bydd gennych grŵp eisoes o etholiad blaenorol a allai gydweithio eto i addasu eich model blaenorol. Os ydych yn rhoi cynnig ar rywbeth am y tro cyntaf mae'n werth ystyried a oes eglwysi, grwpiau ffydd neu grwpiau cymunedol eisoes mewn bodolaeth y gallwch ofyn iddynt a gewch weithio mewn partneriaeth â nhw?

Drwy symud ar-lein mae cyfle newydd i gydweithio ag eglwysi eraill ledled eich ardal i drefnu un cyfarfod cyhoeddus gydag ymgeiswyr etholiadol y gallai pawb ymuno ynddo, neu rannu eich digwyddiad gydag eglwysi nad ydynt wedi cynnal cyfarfod etholiadol o'r fath o'r blaen.

## Y rheolau ynghylch cynnal cyfarfod Cyhoeddus gydag ymgeiswyr etholiadol

---

Mae eglwysi'n elusennau ac felly maent yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr.

Yn ystod cyfnodau etholiad, mae gweithgareddau ymgyrchu hefyd yn ddarostyngedig i reoliadau'r Comisiwn Etholiadol. Mae cynnal cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr etholiadol yn weithgaredd cyfreithlon i eglwysi yn ystod y cyfnodau hynny.

Mae'r un ystyriaethau'n berthnasol i gyfarfodydd etholiadol ar gyfer etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ag ar gyfer etholiadau'r Senedd. Mae rhanbarthau'r Comisiynwyr yn fawr yn ddaearyddol, felly mae'n arbennig o bwysig eich bod yn gweithio ymlaen llaw gydag eglwysi, grwpiau ffydd neu sefydliadau eraill a allai fod yn bwriadu cynnal cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr etholiadol. Os ydych yn bwriadu cynnal cyfarfodydd o'r fath ar gyfer sawl etholiad, dylech eu cynnal ar wahân.

Mae canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gynnal cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr etholiadol i'w gweld yn

<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/ydych-chin-cynnal-hustyngau>.

Cyfraith elusennau - Cymru a Lloegr:

<https://www.gov.uk/government/publications/speaking-out-guidance-on-campaigning-and-political-activity-by-charities-cc9>

## Pennu dyddiad

---

Gall eich digwyddiad gael ei gynnal unrhyw bryd rhwng nawr a diwrnod yr etholiad.

Yn y pen draw, bydd y dyddiad yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys argaeledd ymgeiswyr. Mae bob amser yn werth cysylltu â'r ymgeiswyr cyn gynted â phosibl i ddechrau trafod dyddiadau.

Nodwch, oherwydd yr angen posibl i ystyried a monitro deddfwriaeth frys ynghylch COVID-19, mai dim ond saith diwrnod cyn diwrnod yr etholiad y caiff y Senedd ei diddymu (sef ar 29 Ebrill). Mae hynny'n golygu y bydd ymgeiswyr sy'n Aelodau o'r Senedd ar hyn o bryd yn gorfod cyfuno ymgyrchu â'u cyfrifoldebau seneddol (er y dylai'r rheini ymwneud ond â materion yn gysylltiedig â COVID-19; dylai pob gweithgaredd seneddol arferol arall ddod i ben erbyn diwedd mis Mawrth).

Mae deddfwriaeth wedi'i phasio i alluogi gohirio'r etholiadau hyn am hyd at chwe mis os yw'r sefyllfa gyda'r pandemig yn gofyn hynny. Fodd bynnag, **rydym yn argymhell nad ydych yn oedi cyn trefnu eich cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr etholiadol.** Mae'n well gorfod gohirio nag aros i weld ac yna canfod nad oes gennych ddigon o amser i drefnu'n iawn.

Mae disgwyl i fwy o bobl nag erioed wneud cais am bleidleisiau drwy'r post eleni, er mwyn osgoi pleidleisio'n bersonol. Fel arfer, anfonir pleidleisiau drwy'r post at bleidleiswyr sydd wedi gwneud cais amdanynt tua phythefnos cyn dyddiad yr etholiad. Mae llawer o bobl yn cwblhau eu pleidlais drwy'r post cyn gynted ag y bydd yn cyrraedd.

Sut i gynnal cyfarfod ymgeiswyr

**Am y rhesymau hyn, rydym yn argymhell eich bod yn anelu at gynnal eich digwyddiad yn yr wythnos sy'n dechrau ddydd Llun 19 Ebrill, neu'n gynharach.**

Mae profiad mewn blynyddoedd blaenorol yn dangos bod ymgeiswyr yn aml yn ymateb yn gadarnhaol i wahoddiadau i gyfarfodydd wyneb yn wyneb a gynhelir ar nosweithiau Sul, er y bydd y posibilïadau ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn gyfyngedig eleni.

## Dewis y math o gyfarfod

---

Mae nifer o ffurfiau posibl ar gyfer eich cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr etholiadol. Dyma amlinellu pedwar dewis:

### Dewis A – Cyfarfod etholiadol traddodiadol

Mae'r cyfarfodydd hyn ar ffurf 'hawl i holi', lle gwahoddir ymgeiswyr i ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa.

Efallai y byddwch am ystyried y strwythur canlynol:

- Cyflwyno'r ymgeiswyr yn fyr wrth eu henwau a'u pleidiau
- Datganiad byr gan bob ymgeisydd (rhyw ddwy funud yr un ar y mwyaf)
- Cwestiynau gan y gynulleidfa ar faterion sy'n berthnasol i'r etholiad a gynhelir, gan roi cyfle i bob ymgeisydd ymateb
- Ychydig o frawddegau i gloi gan bob ymgeisydd

O gofio y gall fod gennych chwech neu fwy o ymgeiswyr, bydd angen i chi sicrhau bod datganiadau ac atebion yn cadw at amserlen gaeth.

Mae'n debyg y byddwch am fod â rhywun sydd ag amser ydd ac a all hysbysu'r siaradwr bod yr amser bron ar ben (er enghraifft, 30 eiliad i fynd) ac eto pan fydd yr amser ar ben. Mae rhaglenni cynnal digwyddiadau ar-lein yn caniatáu i 'westeiwr' y cyfarfod ddiffodd microffonau siaradwyr.

Mae hi bob amser yn syniad da trefnu ymlaen llaw i rywun ofyn y cwestiwn cyntaf – efallai y bydd pobl yn araf i siarad ar y dechrau, ond byddant yn deffro cyn bo hir. Cynhelir y cyfarfodydd hyn gan – ond nid ar



gyfer – yr eglwysi. Dylid annog pobl o bob rhan o'r gymuned i fod yn bresennol ac i gymryd rhan.

Penderfynwch sut rydych am ymdrin â chwestiynau – a ddylid cyflwyno cwestiynau ymlaen llaw i sicrhau bod ystod o bynciau'n cael sylw, neu a ydych yn fodlon derbyn cwestiynau gan y gynulleidfa ar y pryd? Os felly, dylech egluro'r rheolau os bydd rhywun am ofyn cwestiwn ac esbonio sut mae gwneud hynny mewn cyfarfod ar-lein. Os yw'ch cyfarfod yn cael ei gynnal ar-lein, gallwch ofyn i bobl gyflwyno cwestiynau i'r cadeirydd neu rywun arall a benodwyd eu darllen trwy wasanaeth megis [Sli.do](#), neu os oes gennych danysgrifiad Gweminar Zoom, mae yna gyfleuster C&A yn rhan ohono.

Beth bynnag a benderfynwch, dylid egluro'r drefn i'r gynulleidfa ar ddechrau'r cyfarfod. Penderfynwch hefyd a fyddwch yn caniatáu gofyn cwestiynau atodol ai peidio: cofiwch, hyd yn oed os rhoddir dim ond dwy funud i bob un o'r chwe ymgeisydd ateb, y bydd pob cwestiwn yn cymryd deuddeg munud. Gallai'r Cadeirydd neu'r holwr gymryd sawl cwestiwn ar y tro. Efallai bydd angen i'r Cadeirydd ffrwyno'r rhai sy'n holi hefyd – mae pobl wedi dod i glywed yr ymgeiswyr, nid y gynulleidfa!

### **Dewis B – Cyfarfod etholiadol ar garlam**

Yn seiliedig ar fformat 'speed dating', mae'r math hwn o gyfarfod cyhoeddus gydag ymgeiswyr etholiadol yn galluogi cynnal deialog rhwng yr ymgeiswyr a'r gynulleidfa. Dyma'r drefn:

Dosberthir y gynulleidfa i ystafelloedd ymneilltuo ar-lein (fel sydd ar gael yn Zoom), gydag ymgeisydd a hwylusydd ym mhob ystafell. Gall ymgeiswyr wneud datganiad agoriadol byr, ac yna ymateb i gwestiynau

gan y grŵp, cyn symud ymlaen i'r grŵp nesaf ar ôl cyfnod penodol o amser.

Ar ôl siarad â'r bobl yn yr holl ystafelloedd ymneilltuo, gwahoddir yr ymgeiswyr i grynhoi mewn datganiad byr gerbron y gynulleidfa gyfan ar ddiwedd y noson.

Un odrwydd o hyn yw and yw'r ymgeiswyr yn cael clywed beth mae'r ymgeiswyr eraill yn ei ddweud, gan olygu y gall rhai ymatebion fod yn ail-adroddus.

### **Dewis C – Cyfarfod etholiadol 'Gwleidyddiaeth y Bobl'**

Er bod cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr etholiadol traddodiadol yn rhoi'r pwyslais ar glywed gan wleidyddion a phleidiau, mae digwyddiad 'Gwleidyddiaeth y Bobl' yn dechrau drwy glywed gan y rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml yn y drafodaeth wleidyddol cyn gofyn i ymgeiswyr ymateb.

Dyma fyddai trefn y digwyddiad:

- Nodwch unigolion neu gynrychiolwyr o grwpiau sy'n aml yn cael eu gwthio i'r cyrion o fewn cymdeithas: gallai hynny gynnwys rhywun o loches i'r digartref neu ddefnyddwyr banc bwyd, grwpiau o bobl ag anabledau dysgu, gofalwyr ifanc, ceiswyr lloches neu unrhyw grwpiau eraill a allai fod yn berthnasol i'ch cyd-destun lleol ac i'r etholiad sy'n cael ei gynnal ac sy'n barod i rannu eu straeon (mae hyd at dri o bobl yn ddelfrydol).
- Yn y digwyddiad, mae'r Cadeirydd yn egluro'r drefn ac yn cyflwyno'r ymgeiswyr a'r rhai sydd wedi cael eu gwahodd i rannu eu straeon.

- Mae'r unigolyn cyntaf yn rhannu ei stori tair munud ac yna'n gofyn cwestiwn yr hoffai i'r ymgeiswyr ei ateb.
- Mae'r holl ymgeiswyr yn ymateb yn eu tro i'r hyn y maent wedi'i glywed ac yn ceisio ateb y cwestiwn. Dylai hon fod yn sgwrs dair ffordd rhwng y Cadeirydd, y sawl sy'n rhannu ei stori a'r ymgeisydd. Nid deialog rhwng yr ymgeiswyr mohono.
- Unwaith y bydd yr holl ymgeiswyr wedi gwneud hyn, bydd y Cadeirydd yn diolch iddynt ac yn diolch i'r sawl sydd wedi rhannu ei stori, cyn gwahodd yr unigolyn nesaf i rannu ei stori.
- Ar ôl clywed yr holl straeon ac ymatebion yr holl ymgeiswyr, gall y Cadeirydd wahodd yr holl siaradwyr i flaen y llwyfan a derbyn cwestiynau gan y gynulleidfa (os bydd amser yn caniatáu).

Mae llwyddiant digwyddiad o'r math hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar ei gwneud yn rhwyddach i bobl rannu eu straeon. I rai o'r unigolion hynny, gall hon fod yn broses fygythiol: yn ddelfrydol dylech dreulio amser gyda hwy ymlaen llaw gan sicrhau eu bod yn gyfforddus gyda'r fformat a'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Efallai y bydd rhai am i'w stori gael ei hysgrifennu. I eraill, gall siarad am dair munud fod yn anodd ac mewn achos felly efallai y byddai'n syniad da dilyn dull cyfweld rhwng y Cadeirydd a'r storiwr.

Gall gwybod pa gwestiwn i'w ofyn i'r ymgeiswyr fod yn anodd hefyd i'r rhai sy'n rhannu eu straeon. Os felly, efallai y bydd angen i chi eu cynorthwyo i feddwl am y cwestiwn ymlaen llaw. Nid oes angen i'r cwestiwn fod yn gymhleth ac yn aml gall cwestiynau syml fel 'Os cewch eich ethol, beth fydddech chi'n ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn?' fod yn bwerus iawn.

Rhan bwysig arall o'r broses yw hwyluso'r drafodaeth rhwng yr ymgeiswyr a'r storiwr. Wrth wneud hynny, mae'n bwysig bod y Cadeirydd yn sicrhau bod y ddau unigolyn yn cael cyfle teg i gyfrannu a'u bod yn gwneud hynny mewn ffordd bwyllog ac adeiladol. Dylid esbonio hynny i'r cyfranogwyr cyn y digwyddiad.

### **Dewis CH – 'Cyfres o Gyfweiliadau'**

Yn hytrach na cheisio trefnu digwyddiad cyhoeddus, byddai'r syniad hwn yn golygu bod holwr, yn dilyn briffio trwyadl, yn cyfweld pob un o'r ymgeiswyr yn eu tro, gan ofyn yr un cwestiynau neu gwestiynau tebyg i bawb, a chaniatáu'r un faint o amser i bob ymgeisydd (dyweder tua 15 munud). Byddai'r cyfweiliadau'n cael eu ffilmio ar adegau cyfleus i'r ymgeiswyr unigol. Unwaith y byddant wedi'u recordio dylid eu golygu'n un fideo a'u lanlwytho. Wrth baratoi'r fideo llawn, dylid sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn cael eu cyflwyno mewn ffordd deg, eu bod i oll wedi cael y cyfle i ateb yr un cwestiynau a bod gan bawb yr un faint o amser fideo i siarad.

Byddai angen i'r holwr fod yn barod i feddwl yn ofalus am y cwestiynau a byddai angen sicrhau dangos pob ymgeisydd mewn golau teg a chywir, ac nad oes neb yn cael mwy neu lai o gyhoeddusrwydd nag eraill. Byddai angen i'r grŵp cydlynu hefyd weithio'n egniol i sicrhau bod cyhoeddusrwydd eang ar gyfer y fideo.

## Cynnal y cyfarfod etholiadol ar-lein

---

Mae'n bwysig gwneud rhai penderfyniadau cychwynnol yn gynnar ynghylch y fformat a'r plattform ar gyfer cynnal y digwyddiad. Mae'r dewis o blatfformau ar-lein posibl yn cynnwys: Zoom Meetings, Google Meet, GoToMeeting, a Microsoft Teams ymhlith eraill. Bydd yr adran hon yn amlinellu tri fformat posibl, ond mae'n werth ystyried dichonoldeb pob awgrym ar gyfer eich cyd-destun, gan ei bod yn bosibl mai cyfuniad o fformatau (neu fformat cwbl wahanol) fyddai'n gweddu orau yn eich sefyllfa chi.

### Dewis 1 – Cyfarfod byw, ar-lein yn unig

Mae'n debyg mai'r dewis symlaf, a'r un sy'n debygol o fod fwyaf cyfarwydd i gymunedau eglwysig, yw cynnal cyfarfod byw ar-lein yn unig. Gellir cynnal y cyfarfod yn yr un modd â chyfarfod cyhoeddus arferol gydag ymgeiswyr etholiadol, gyda'r Cadeirydd yn gweithredu fel 'gwesteivr' a'r ymgeiswyr yn aros yng nghanol sgrin y gynulleidfa, fel panel. Gall y gynulleidfa gyflwyno cwestiynau drwy'r cyfleuster sgwrsio testun, cyfleuster C&A, [Sli.do](#), neu, os yw'r Cadeirydd yn gyfforddus â hynny, drwy gyfraniadau llafar.

Bydd gan y gwesteivr technegol reolaeth dros dawelu cyfranwyr, a dylai fod yn barod i wneud hynny os oes angen.

### Dewis 2 – Ffrydio panel wyneb yn wyneb yn fyw

Os bydd y rheoliadau a'r cyfyngiadau lleol yn caniatáu, efallai yr hoffech gynnal cyfarfod ar-lein sydd wedi'i addasu ychydig, lle mae'r ymgeiswyr a'r Cadeirydd yn bresennol yn bersonol gyda'r gynulleidfa'n ymuno mewn cyfarfod ar-lein. Meddyliwch am raglen *Question Time* y BBC

gyda'i chynulleidfa rithwir. Fel yn achos Dewis 1, gellir cyflwyno cwestiynau gan y gynulleidfa drwy'r cyfleuster sgwrsio testun. Gallai ymgeiswyr fod yn fwy cyfforddus â'r fformat hwn, a gall y sgwrs fod yn fwy ystwyth o gyfarch ymgeiswyr yn bersonol.

Yn achos y dewisiadau hyn mae'n werth ystyried y canlynol:

- **Niferoedd:** Faint o bobl fydd yn cymryd rhan? Ac a yw'r platfform ar-lein rydych chi'n ei ddefnyddio'n cyfyngu ar y nifer o gyfranogwyr a ganiateir mewn cyfarfod?
- **Tanysgrifiadau a therfynau amser:** A oes angen tanysgrifiad neu aelodaeth arnoch ar gyfer y platfform ar-lein rydych am ei ddefnyddio? Er enghraifft, ar Zoom Meetings, bydd angen i'r gwesteivr dalu am gyfrif i gynnal cyfarfod sy'n hwy na 40 munud, felly ystyriwch a oes cyfrif eglwys neu gyfrif cymunedol y gallwch ei ddefnyddio neu dalu i fod yn rhan ohono. Os yw symud ar-lein yn eich galluogi i gydweithio ar draws ardal ehangach, efallai y bydd modd cyfuno adnoddau er mwyn gallu cynnal digwyddiad mwy proffesiynol neu fwy effeithiol.
- **Cyfleusterau:** Os ydych yn ystyried dull hybrid, a oes gennych adeilad gyda chyfleusterau ffilmio neu ffrydio byw, a chysylltiad rhynggrwyd cryf?
- **Cofrestru:** Pa mor eang ydych chi am i'ch digwyddiad gael ei rannu? Efallai yr hoffech greu tudalen gofrestru ar gyfer eich digwyddiad, er mwyn caniatáu i bobl gofrestru i dderbyn manylion y cyfarfod. Bydd hyn yn caniatáu mwy o ddiogelwch, gan y gallwch reoli rhannu cyfrinair eich cyfarfod. Gellir creu tudalennau cofrestru ar [Eventbrite](#) a gall gwefannau eraill ddarparu tudalennau cofrestru yn hawdd.

- **Penodi gwesteiwr:** Mae penodi cydlynnydd i weithredu fel gwesteiwr technolegol yn hanfodol. Gall y gwesteiwr reoli pwy sy'n cymryd rhan, monitro'r cyfleuster sgwrsio testun, ymateb i unrhyw faterion technolegol a chadw golwg ar gwestiynau neu sylwadau. Mae hyn yn caniatáu i'r Cadeirydd ganolbwyntio ar reoli'r cyfarfod a thalu sylw i'r ymgeiswyr, yn hytrach na gorfod ymateb i argyfyngau technolegol!
- **Cadw llygad ar amser:** Heb gynulleidfa ar y safle, gall fod yn anodd cofio cadw at amser. Bydd creu amserlen y mae'r gwesteiwr a'r Cadeirydd yn ymwybodol ohoni o gymorth i sicrhau bod eich digwyddiad yn cadw at amser, a bod pob ymgeisydd yn cael yr un faint o amser i siarad. Gwnewch yn siŵr bod yr ymgeiswyr yn cael gwybod beth fydd hyd y cyfarfod, ac atgoffwch yr holl gyfranogwyr o hynny ar y dechrau. Os ydych yn bwriadu derbyn cwestiynau o'r gynulleidfa, cofiwch nodi sut mae cyflwyno'r rheini – drwy'r cyfleuster sgwrs testun ac ati – a phryd y byddant yn cael eu hateb.
- **Ymddygiad da ar-lein:** Er bod llawer ohonom bellach yn gyfarwydd iawn â bywyd ar-lein, mae'n werth cytuno ymlaen llaw ar set o reolau sylfaenol i'w rhannu â chyfranogwyr ar ddechrau cyfarfod. Gallai hyn gynnwys cadw microffonau wedi'u diffodd neu ddefnyddio'r cyfleuster sgwrs testun i anfon negeseuon.
- **Hygyrchedd:** Mae gan rai platfformau ar-lein gyfleusterau sgrindeitlo y gellir eu defnyddio i wella hygyrchedd cyfarfodydd. Os byddwch yn penderfynu rhannu recordiadau o'ch cyfarfod, neu gynhyrchu adnodd o fath arall wedi'i recordio, ystyriwch ddefnyddio isdeitlau i sicrhau y gall cymaint ag sy'n bosibl o bobl yn eich cymuned ddefnyddio'r adnodd. Efallai y byddwch hefyd am ystyried cyfieithu'r cyfarfod i iaith ychwanegol os un iaith a siaredir

fwyaf yn eich ardal.

Yng Nghymru, mae'n arfer da ystyried cyfieithu llafar ar y pryd (cyfleuster sydd ar gael ar Zoom a rhai platfformau eraill). Dylai'r cyfieithydd fod yn gymwys ac yn wleidyddol niwtral. Oni bai fod gwirfoddolwr â chymwysterau addas ar gael, dylid neilltuo cyllid ar gyfer hyn. Bydd darparu cyfieithu yn galluogi'r ymgeiswyr hynny sy'n dymuno siarad yn Gymraeg i wneud hynny a bydd pawb yn gallu eu deall ar unwaith. Mae'n bwysig hefyd bod y Cadeirydd yn gallu ymdrin â chwestiynau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- **Diogelwch:** Yn dibynnu ar ba mor eang y bydd manylion y cyfarfod ar gael, efallai byddwch yn wynebu problemau diogelwch gyda chyfranogwyr annisgwyl neu negeseuon anwedus. Bydd sicrhau bod gennych westeiwr sy'n gallu ymateb yn gyflym drwy gael gwared ar bobl neu bostiadau os bydd angen o gymorth i reoli hyn. Yn ogystal â sefydlu rheolau sylfaenol, efallai yr hoffech gytuno ar 'gynllun gweithredu' ynghylch ymdrin â phroblemau diogelwch, er mwyn lleihau unrhyw aflonyddu i'r eithaf.
- **Recordio a chaniatâd ar gyfer recordio:** Gallwch ddewis recordio eich cyfarfod a'i lanlwytho i'w rannu â phobl nad oeddent yn gallu cymryd rhan ar y pryd. Os ydych yn bwriadu rhannu recordiadau o unrhyw gyfarfodydd, sicrhewch eich bod yn egluro hynny, gan ganiatáu i bobl ddiffodd eu camera a'u meicroffon os nad ydynt yn fodlon yn cael eu recordio.

### Dewis 3 – Rhannu clipiau fideo a gafodd eu recordio'n flaenorol

Byddai'r dewis hwn yn golygu bod y trefnwyr naill ai'n cynnal cyfres o gyfweiliadau ar wahân, neu'n anfon yr un cwestiynau at yr holl ymgeiswyr ac yn gofyn iddynt recordio eu hymatebion ar fideo ac yna gall yr eglwys eu postio ar-lein. Efallai y bydd un o'r arweinwyr eglwysig yn hoffi



Sut i gynnal cyfarfod ymgeiswyr

ychwanegu sylw yn ymwneud â ffydd, y cyd-destun democrataidd a'r cyd-destun penodol.

Gall hyn fod yn ddewis os oes nifer fawr o ymgeiswyr, neu mewn ardaloedd sydd â chysylltiad rhyngrwyd annibynadwy a allai wneud cynnal cyfarfod byw ar-lein yn anodd.

## Penodi Cadeirydd

---

Er mwyn sicrhau bod amrywiaeth barn a safbwyntiau amrywiol yn cael eu clywed yn ystod y drafodaeth dylech feddwl am rywun diduedd o'ch cymuned ac sy'n ennyn parch a fyddai'n fodlon cadeirio'r cyfarfod.

Gallai fod yn rhywun amlwg yn y byd eglwysig, yn arweinydd yn y gymuned neu'n rhywun arall sy'n gyfarwydd â siarad yn gyhoeddus a chadw trefn.

Ni ddylai fod yn aelod o blaid wleidyddol na bod yn adnabyddus am gefnogi unrhyw blaid benodol.

Mae hefyd yn bwysig bod y sawl a benodir yn gallu rheoli'r cyfarfod yn gadarn ac yn deall yn union mae'r digwyddiad i'w gynnal.

Gallech ystyried cynnal ymarfer technegol cyn y digwyddiad ei hun. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer unrhyw frychau neu ystyriaethau technegol gael eu hystyried cyn y cyfarfod byw.

Byddai cymorth rhywun sydd â phrofiad o gynnal cyfarfodydd ar-lein, neu sydd yn gyfarwydd â'r platfform y cynhelir y cyfarfod arno, yn ddefnyddiol.

## Gwahodd ymgeiswyr

---

Fe fydd nifer o etholiadau'n digwydd ar yr un diwrnod yn eich ardal, felly bydd angen i chi benderfynu ar gyfer pa un neu ba rai y byddwch yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr etholiadol ar eu cyfer. Os nad ydych yn siŵr pa etholiadau sy'n digwydd yn eich ardal, edrychwch yma - [Etholiadau ar ddod | Y Comisiwn Etholiadol](#).

Y dyddiad cau ar gyfer enwebu ymgeiswyr ar gyfer yr holl etholiadau yw dydd Iau 8 Ebrill. Ar ôl y dyddiad hwnnw, bydd y swyddog canlyniadau ar gyfer yr etholiad(au) perthnasol yn cyhoeddi rhestr o ymgeiswyr ar gyfer pob etholiad.

Byddwch wedyn yn gallu cysylltu â'r ymgeiswyr drwy'r pleidiau gwleidyddol yn lleol neu'n genedlaethol, ar y cyfryngau cymdeithasol neu drwy wefannau'r ymgeiswyr.

Os ydych am gysylltu cyn yr adeg honno, gallwch ddefnyddio [www.democraticdashboard.com](http://www.democraticdashboard.com) i ddarganfod pwy sy'n sefyll yn eich ardal.

Dylech hefyd ofyn am rifau ffôn symudol ac enw a manylion asiant etholiadol yr ymgeisydd fel y gallwch gadw mewn cysylltiad yn y cyfnod cyn y digwyddiad.

Mewn etholiadau i'r Senedd, cynrychiolir pleidleiswyr gan Aelod Etholaeth, a etholir drwy system y cyntaf i'r felin, yn ogystal â nifer o Aelodau Rhanbarthol, sy'n cael eu hethol drwy drefn cynrychiolaeth gyfrannol.

Efallai na fydd rhai pleidiau llai yn dewis ymgeiswyr etholaethol, ond yn hytrach ond yn sefyll ar gyfer seddi rhanbarthol.

Os ydych yn trefnu cyfarfodydd etholiadol ar gyfer etholiad y Senedd, dylech benderfynu a ydych am wahodd yr ymgeiswyr etholaethol lleol yn unig, ynteu wahodd cynrychiolwyr o'r holl bleidiau sy'n sefyll yn yr etholaeth a'r rhanbarth – ceisiwch feddwl beth sy'n debygol o fod fwyaf defnyddiol i'r gymuned a'r hyn a fyddai'n hybu trafodaeth gyhoeddus deg orau.

### **A oes rhaid i ni wahodd yr holl ymgeiswyr?**

Nac oes – ond os nad ydych, rhaid i chi fod â rheswm gwrthrychol, diduedd dros beidio â chynnwys pob un ohonynt.

Y peth symlaf i'w wneud yw gwahodd yr holl ymgeiswyr perthnasol yn yr ardal neu'r holl bleidiau gwleidyddol sy'n ymgyrchu yn yr etholiad a chaniatáu i bawb sy'n bresennol gyfle cyfartal i gyfranogi.

Fodd bynnag, efallai na fydd hyn bob amser yn ymarferol. Er enghraifft, efallai y bydd cynifer o ymgeiswyr neu bleidiau'n sefyll y byddai'n anodd rheoli cyfarfod – mae hyn yn arbennig o wir am y rhestrau rhanbarthol yn y Senedd lle gallai etholiad fod ar gyfer nifer o seddi. Os byddwch yn penderfynu peidio â gwahodd pob ymgeisydd, mae rhai argymhellion arfer da y dylech eu dilyn i wneud yn sicr nad yw eich cyfarfod etholiadol yn hyrwyddo rhai ymgeiswyr neu bleidiau yn fwy nag eraill.

Ymhlith rheini mae:

- Gallu rhoi rhesymau diduedd pam nad ydych wedi gwahodd ymgeiswyr neu bleidiau penodol. Dylech fod yn barod i egluro eich rhesymau i ymgeiswyr neu bleidiau nad ydych wedi'u gwahodd.

Os nad ydych am wahodd ymgeisydd am nad ydych yn cytuno â pholisiâu'r ymgeisydd, nid yw hynny'n rheswm diduedd. Nid yw'n rheswm diduedd ychwaith eich bod yn gwahodd neu ddim yn gwahodd ymgeisydd oherwydd ymlyniad crefyddol gwirioneddol neu dybiedig. Er y gall hynny weithiau fod yn ddilys o dan gyfraith elusennau, mae iddo ganlyniadau i ymgeiswyr o dan gyfraith etholiadol, gan y gall gwariant ar gyfarfodydd o'r fath gyfrif fel gwariant etholiadol. Yn y sefyllfa honno, mae angen rhannu'r swm a wariwyd â nifer yr ymgeiswyr ac os yw dros £50 yr un yna mae angen hysbysu'r ymgeiswyr y dylid ei gynnwys yn eu datganiadau i'r Comisiwn Etholiadol. Dylech ymgynghori â chanllawiau'r Comisiwn ynghylch trefnu Hustyngau Detholus ([gweler https://www.electoralcommission.org.uk/are-you-holding-a-hustings/selective-hustings](https://www.electoralcommission.org.uk/are-you-holding-a-hustings/selective-hustings)) gan y bydd hynny'n ddarostyngedig i reoliadau. Efallai y bydd yn ofynnol i chi gofrestru gyda'r Comisiwn a sicrhau bod yr ymgeiswyr yr ydych yn eu gwahodd yn datgan eich cefnogaeth iddynt. Am y rhesymau hyn, argymhellir eich bod yn gwahodd pob ymgeisydd, oni bai bod rheswm diduedd dros wneud hynny.

Gall rhesymau diduedd gynnwys:

- Amlygrwydd lleol rhai pleidiau neu ymgeiswyr uwchlaw eraill.
- Nifer cynrychiolwyr etholedig y blaid dan sylw ar y lefel leol neu genedlaethol.
- Canlyniadau etholiad(au) diweddar yn yr ardal.
- Adnoddau ac agweddau ymarferol eraill sy'n cyfyngu ar y nifer o ymgeiswyr y gellir eu gwahodd.
- Pryderon diogelwch.

- Sicrhau bod ymgeiswyr neu bleidiau a wahoddwch yn cynrychioli amrywiaeth rhesymol o safbwyntiau, o wahanol rannau o'r sbectrwm gwleidyddol – ar gyfer y rhestrau rhanbarthol yn y Senedd, dylid gwahodd pob plaid i ddewis un ymgeisydd, er bod nifer o ymgeiswyr o'r blaid yn sefyll yn yr etholiad.
- Caniatáu i bob ymgeisydd neu gynrychiolydd plaid sy'n bresennol gyfle teg i ateb cwestiynau a, lle bo'n briodol, gyfle rhesymol i ymateb i bwyntiau a wnaed yn ei (h)erbyn gan ymgeiswyr neu gynrychiolwyr pleidiau eraill.
- Hysbysu'r gynulleidfa yn y cyfarfod am ymgeiswyr neu bleidiau sy'n sefyll nad ydynt wedi cael eu gwahodd. Mae'n arfer da gwahodd yr ymgeiswyr hynny i gyflwyno datganiad ysgrifenedig byr (o'r un hyd â datganiadau agoriadol y pleidiau sy'n bresennol) i'w ddarllen gan y Cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod.

## **Beth os nad yw ymgeisydd yn ymateb i wahoddiad, yn gwrthod y gwahoddiad, yn boicotio'r cyfarfod neu ddim yn ymddangos yn y digwyddiad?**

---

I drefnwyr, gall hyn fod yn dipyn o boen, ond os byddwch wedi penderfynu sut y byddwch yn ymdrin â'r sefyllfa cyn iddi godi, byddwch yn fwy parod. Yn y lle cyntaf, ceisiwch ddod o hyd i ddyddiad sy'n gyfleus ar gyfer yr holl ymgeiswyr a wahoddir – a cheisiwch fod yn hyblyg os bydd anawsterau'n codi!

- Diffyg ymateb – Os na fyddwch yn derbyn ymateb i'r gwahoddiad, mae angen i chi geisio eto. Daliwch ati a cheisiwch gael cyfeiriad e-bost a rhif ffôn ar gyfer yr ymgeisydd a'r asiant etholiadol fel y gallwch gadw mewn cysylltiad.
- Gwrthod y gwahoddiad – os yw ymgeisydd wedi gwrthod bod yn bresennol (oherwydd ymrwymiad arall, er enghraifft) nid oes rhaid i chi boeni ynghylch natur ddiuedd eich digwyddiad, gan mai'r gwahoddiad sy'n cyfrif. Os yw'r un sy'n gwrthod yn ymgeisydd un o'r prif bleidiau cenedlaethol, meddyliwch a fyddech yn fodlon bod llefarydd arall ar ran y blaid yn cymryd rhan. Yn achos cyfarfod gydag ymgeiswyr etholaethol ar gyfer y Senedd, byddai'n rhesymol caniatáu i'r blaid dan sylw enwebu un o'i hymgeiswyr rhestr ranbarthol fel dirprwy. Efallai byddai'n dda wneud datganiad ar ddechrau'r digwyddiad, gan esbonio pam nad yw'r ymgeisydd yn gallu bod yno. Mae'n arfer da gwahodd ymgeiswyr na allant fod yn bresennol i gyflwyno datganiad ysgrifenedig byr (o'r un hyd â

datganiadau agoriadol y pleidiau sy'n bresennol) i'w ddarllen gan y Cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod.

- Boicotio – mae gan rai pleidiau bolisi o beidio â rhannu llwyfan gyda phleidiau penodol eraill, gan y teimlir bod hynny'n cyfleu rhywfaint o ddilysrwydd iddynt. Os canfyddwch, oherwydd y bydd ymgeisydd plaid A yn bresennol, na fydd ymgeiswyr o bleidiau B ac C yn cymryd rhan yn y cyfarfod, beth ddylai eich grŵp cynllunio ei wneud? Byddwch yn barod i ystyried cynnal digwyddiad gwahanol neu beidio â chynnal digwyddiad os na fydd o fudd i'r gymuned.
- Ymgeisydd ddim yn ymddangos – yn amlwg byddai hyn yn siomedig i'r grŵp cynllunio a'r gynulleidfa, ond hefyd i ymgeisydd sydd wedi anghofio! Gall etholiadau fod yn gyfnodau hynod brysur, felly sicrhewch fod llai o siawns cael eich siomi drwy gadw mewn cysylltiad ag ymgeiswyr, rhannu rhifau ffôn a chadarnhau'r holl drefniadau ychydig ddyddiau cyn y digwyddiad.



## Rhoi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad

---

Ceisiwch sicrhau bod cyhoeddusrwydd ar gyfer y cyfarfod i yn cyrraedd cymaint o bobl ac mewn cymaint o ffyrdd â phosibl – ac ar y cyfle cyntaf.

Bydd angen i chi benderfynu ar lefel diogelwch eich cyfarfod etholiadol yn dibynnu ar y plattfform rydych chi'n dewis ei ddefnyddio. Gallwch ddewis hysbysebu drwy Eventbrite neu ofyn i bobl gofrestru ar gyfer dolen a fydd yn rhoi manylion yn nes at y dyddiad.

Cysylltwch â'r holl eglwysi yn yr ardal leol, gan ofyn iddynt hysbysu eu cynulleidfaoedd am y cyfarfod etholiadol drwy eu cylchlythyrau, eu cyfryngau cymdeithasol neu eu gwasanaethau.

Os yw'n bosibl, gofynnwch i un aelod ym mhob cynulleidfa gymryd cyfrifoldeb am roi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfod o fewn ei (h)eglwys ei hun.

Er ei bod yn werth canolbwyntio ar flaenoriaethu hysbysebu ar-lein, efallai yr hoffech ystyried sut y bydd pobl yn y gymuned sy'n llai hyddysg mewn cyfrifiadura'n cael gwybod am y cyfarfod a sut y gellir eu cynorthwyo i gymryd rhan.

Mae rhai plattfformau'n eich galluogi i glywed sain cyfarfod drwy alw i mewn ar y ffôn. Efallai y byddwch hefyd am benodi rhywun i sicrhau bod y digwyddiad mor hygyrch â phosibl.

Gallech hefyd ofyn i'r cyfryngau lleol hysbysebu'r digwyddiad. Gellir anfon dogfen syml (yn nodi Beth, Pryd, Ble, Pwy a Pham) i bapurau newydd a gorsafoedd radio lleol, ond peidiwch ag anghofio hysbysu'r ymgeiswyr yn gyntaf.

Sut i gynnal cyfarfod ymgeiswyr

Os byddwch yn dewis recordio'r digwyddiad (gan sicrhau caniatâd yr ymgeiswyr a'r gynulleidfa gyntaf ar gyfer unrhyw recordio), gallech hefyd bostio'r fideo ar-lein a rhoi gwybod i bobl amdano.

## Rhestr wirio a chysylltiadau

---

- ❑ Ffurfiwch grŵp cynllunio
- ❑ Penderfynwch pa etholiad(au) y byddwch yn eu cynnwys
- ❑ Darganfyddwch pwy yw'r ymgeiswyr yn eich ardal chi
- ❑ Penderfynwch ar fformat / platfform
- ❑ Trefnwch ddyddiad, amser a lleoliad
- ❑ Gwahoddwch ymgeiswyr ac ailgysylltwch os na fydd ymateb
- ❑ Penodwch a) eich Cadeirydd a b) eich cydlynnydd cyfarfod ar-lein
- ❑ Rhowch gyhoeddusrwydd i'r digwyddiad (tudalen gofrestru, dolen gwahodd ac ati) a gwahoddwch gwestiynau
- ❑ Cynhaliwch ymarfer a gwirio'r dechnoleg

Paratowyd y canllawiau hyn gan [Swyddfa Seneddol Eglwysi'r Alban](#), [Cytûn – Eglwysi ynghyd yng Nghymru](#) a'r [Tîm Materion Cyhoeddus ar y Cyd \(Joint Public Issues Team\)](#).

Byddem wrth ein bodd cael gwybod sut y penderfynoch gynnal eich digwyddiad, pwy a fynychodd, pa gwestiynau a ofynnwyd ac yn enwedig os oeddech wedi rhoi cynnig ar fath newydd o fformat ar gyfer ymgysylltu.

Anfonwch luniau atom hefyd (gyda chaniatâd y bobl berthnasol).

Rydym hefyd am wybod a fu'r canllawiau hyn yn ddefnyddiol, a beth ddylid ei ychwanegu neu ei newid ar gyfer y dyfodol.

Os oes gennych gwestiynau, awgrymiadau neu sylwadau, ysgrifennwch, os gwelwch yn dda, at Gethin Rhys [gethin@cytun.cymru](mailto:gethin@cytun.cymru)

*Diweddarwyd Chwefror 2021 gan Meg Read a Rodney Coker*